

Dyma gyfle unigryw i gefnogi unigolion proffesiynol a chwmnïau'r sector sgrin yng Nghymru i sicrhau allyriadau carbon sero-net erbyn 2050.

- Math o gontract:** Amser llawn, am un flwyddyn i gychwyn gyda'r posibilrwydd i ymestyn i gontract aml-flwyddyn. Byddwn yn ystyried cynigion i rannu swydd.
- Lleoliad:** Cymru. Mae ein prif leoliad yng Nghaerdydd ond mae hyblygrwydd i weithio o bell.
- Yn adrodd i:** Pennaeth Cynhyrchu.
- Dyddiad dechrau:** Cyn gynted â phosibl yn 2021.
- Cyflog:** £25,000- £30,000 (yn dibynnu ar brofiad), ynghyd â phensiwn a 28 diwrnod o wyliau yn ychwanegol at Wyliau Cyhoeddus.
- Cynhwysiant:** Rydym wedi ymrwmo i ehangu cynrychiolaeth a phrofiad go iawn yn ein sefydliad. Byddwn yn cynnig cyfweiliad yn awtomatig i bob ymgeisydd sy'n cyrraedd ein meini prawf hanfodol ac sy'n ystyried eu bod o hil neu ethnigrwydd sydd wedi'i dangynrychioli, neu yn fyddar, niwroamrywiol, neu'n byw ag anabledd.
- Dyddiad cau:** 5pm ar 17 Mawrth, 2021



Rydym yn sefyll mewn undod i ddweud NA wrth hiliaeth ac yn ymrwmo i **#DimHiliaethCymru**

YDYCH CHI?

GWYBODAETH GEFNDIROL

Ffilm Cymru yw'r asiantaeth ddatblygu ar gyfer ffilm yng Nghymru.

Yn ychwanegol at ddarparu cymorth uniongyrchol i addysgwyr ffilm, arddangoswyr a mwy na 100 o wneuthurwyr ffilmiau bob blwyddyn, mae Ffilm Cymru hefyd yn gweithio i fynd i'r afael â heriau ehangach sy'n wynebu'r sector sgrin yng Nghymru.

Boed yn darparu seilwaith i'r rhai sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol i ddatblygu gyrfa ym myd y sgrin, codi ymwybyddiaeth o iechyd meddwl, neu gynorthwyo perchnogion cwmnïau i amrywio eu ffynonellau incwm y tu hwnt i ffilmiau nodwedd annibynnol: mae Ffilm Cymru wedi ymrwymo i hybu diwydiant sgrin yng Nghymru sy'n gryf a chynaliadwy. Un y gallwn ni i gyd fod yn falch i ddweud ei fod yn perthyn i ni.

Tra bo newid hinsawdd yn argyfwng i bob sector, gall y diwydiant cynhyrchu ffilmiau fod yn eithriadol o wastraffus, gan greu lefel ddychrynlyd o allyriadau mewn perthynas â'i faint. Byddai angen newid systematig er mwyn i ni gyrraedd allyriadau carbon sero-net erbyn 2050, sydd bellach yn ofynnol yn y gyfraith o dan y Ddeddf Newid Hinsawdd.

Rydym yn gwybod ar sail y gwaith a wnaed eisoes gan Albert, BAFTA, a Green Regio mai'r prif ffactorau sy'n creu carbon yn y sector sgrin yw trafndiaeth, darparu ynni a chyfleustodau, a gwaredu gwastraff. Rydym eisiau helpu i ddod ag arbenigedd o'r amryw feysydd yma at ei gilydd gyda phobl sy'n brofiadol yn y sector sgrin, er mwyn datblygu gwell dealltwriaeth o'r heriau ymarferol a chynorthwyo proses ymchwil a datblygu sydd â'r nod o nodi a phrofi cynnyrch a/neu wasanaethau newydd sy'n helpu'r sector i leihau ei allyriadau carbon.

I gynorthwyo'r gwaith yma, mae Ffilm Cymru wedi partneru â'r [Clwstwr](#) a chyda'n gilydd byddwn yn cynnal gweithdai, yn cynnig cyllid drwy broses geisiadau gystadleuol ac yn rhannu'r hyn a ddysgir.

PRIF DDIBEN Y RÔL

Fel Rheolwr Materion Gwyrdd Ffilm Cymru, byddwch yn gyfrifol am ddatblygu a gweithredu mentrau gwyrdd Ffilm Cymru.

Eich prif ffocws fydd datblygu a chyflawni ein rhaglen Cymru Werdd gyda'r Clwstwr Creadigol, sy'n cynnwys cronfa arloesi gwerth tua £75,000 ar gyfer ymchwil a datblygu ym maes cynnyrch a gwasanaethau gwyrdd, yn ogystal â digwyddiadau i ysbrydoli a chodi ymwybyddiaeth.

Byddwch hefyd yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr yn Ffilm Cymru ym meysydd cynhyrchu, cynulleidfa ac arddangos, i ddatblygu adnoddau, polisi a phrosesau sy'n cefnogi sector gwyrddach. Byddwch yn meithrin perthnasoedd â sefydliadau sy'n canolbwyntio ar gynaliadwyedd yng Nghymru a thu hwnt a byddwch yn llysgennad i ymrwymiad Ffilm Cymru i ddiwydiant sgrin gwyrdd.

PRIF DDYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU

Gan adrodd i Bennaeth Cynhyrchu Ffilm Cymru, byddwn yn ymgymryd â'r canlynol:

- Ymchwilio, hyrwyddo a thracio hyfforddiant, offer a mentrau presennol sy'n cefnogi arloesi gwyrdd yn y diwydiannau sgrin yn y DU a thu hwnt;
- Ymchwilio, codi ymwybyddiaeth a thracio cwmnïau gwasanaethau a chyfleusterau yng Nghymru sydd wedi ymrwymo i gynaliadwyedd ac a fyddai eisoes yn gallu helpu cynyrchiadau sgrin i fod yn wyrddach;
- Datblygu perthnasoedd â sefydliadau sgrin eraill sy'n gweithio ym maes cynaliadwyedd yn ogystal ag mewn meysydd fel trafniadaeth, ynni, cyfleustodau, a gwaredu gwastraff, er mwyn cynyddu dealltwriaeth o heriau gwyrdd y sector sgrin, a broceru perthnasoedd a all arwain at ddatblygu atebion gwyrdd;
- Cyflawni ein prosiect 'Cymru Werdd' gan weithio'n agos â chydweithwyr yn y Clwstwr, yn benodol:

- Datblygu meini prawf, canllawiau a ffurflenni cais i gronfa sbarduno arloesedd ar gyfer cynnyrch a gwasanaethau gwyrdd;
 - Bod yn brif bwynt cyswllt ar gyfer mynegi diddordeb yn y gronfa, gan fynd ati'n rhagweithiol hefyd i annog ceisiadau gan amrywiaeth eang o unigolion a sefydliadau;
 - Datblygu digwyddiadau i ysbrydoli a datblygu syniadau er mwyn cynorthwyo ceisiadau ac ymwybyddiaeth ehangach;
 - Rheoli'r broses geisiadau ac asesu gan sicrhau y caiff cofnodion cywir eu cadw gyda chymorth gweinyddydd yr adran;
 - Asesu ceisiadau i'r gronfa a chymryd rhan yn y broses benderfynu fel rhan o banel gan gontractio arbenigedd allanol yn ôl yr angen i gynorthwyo'r broses benderfynu;
 - Bod yn brif bwynt cyswllt i rai y dyfernir cyllid iddynt, trefnu taliadau iddynt, a monitro a chynorthwyo eu cynnydd, a allai gynnwys hwyluso cyflwyniadau i arbenigwyr perthnasol;
 - Cynorthwyo'r Rheolwr Cyfathrebu i ddatblygu cynllun marchnata a chysylltiadau cyhoeddus i'r prosiect, o'r lansiad cychwynnol i rannu'r hyn a ddysgir;
 - Rheoli cyllideb 'Cymru Werdd' a'r gwaith adrodd cysylltiedig;
 - Goruchwylio'r gwaith o werthuso'r prosiect, gan ddatblygu fframwaith gwerthuso clir o'r cychwyn a hwyluso'r arfer o gasglu adborth drwy gydol y broses.
- Drwy gydol y flwyddyn o gontract, byddwch yn datblygu argymhellion ar gyfer polisi, prosesau ac adnoddau y gallai Ffilm Cymru eu cyflwyno i gynorthwyo sector sgrin gwyrddach, ar draws ein gwaith gyda gwneuthurwyr ffilmiau, sinemâu ac addysgwyr ffilm, ac ym maes datblygu sgiliau. Byddwch yn agor fforwm i gasglu dealltwriaeth o'r sector sgrin a sectorau cysylltiedig er mwyn llywio'r argymhellion;
 - Datblygu adnoddau cynorthwyol fel 'awgrymiadau gwych' a dolenni defnyddiol, oddi mewn i'r gyllideb sydd ar gael;
 - Cynrychioli Ffilm Cymru mewn digwyddiadau ac eirioli ar ran arferion gwyrdd yn y sector sgrin;
 - Ymgymryd â dyletswyddau eraill a allai fod yn rhesymol ofynnol.

EICH PROFIAD

Hanfodol

Gan fod yn angerddol ynglŷn â chynorthwyo cynaliadwyedd amgylcheddol, byddwch yn bodloni'r canlynol:

- Dangos dealltwriaeth gref o rwymedigaethau di-garbon a pholisi amgylcheddol ehangach;
- O leiaf 2 flynedd o brofiad o reoli prosiectau ac yn gyfarwydd ag amserlenni, cyllidebu a gwerthuso;
- Profiad proffesiynol o ymchwil a datblygu a dangos dealltwriaeth o'r prosesau sydd ynghlwm wrth hynny;
- Profiad o ffurfio a chynnal partneriaethau ar lefel uchel;
- Yn gyfforddus yn ymgymryd â rhai tasgau gweinyddol gan gyfrannu hefyd ar lefel strategol, gan weithio fel rhan o dîm bach;
- Sgiliau ymchwil a threfnu cryf ac yn gallu dangos sylw i fanylion yn ogystal â datrys problemau yn eich gyrfa hyd yma;
- Dealltwriaeth o ragfarn strwythurol a bod yn ymrwymedig i hybu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant;
- Cyfathrebwr brwdfrydig, sy'n gyfforddus yn eirioli.

Dymunol

- Profiad proffesiynol o'r sector sgrin. Os nad oes gennych hyn, byddwch yn gallu dangos dealltwriaeth glir o heriau penodol i'r sector sgrin fod yn amgylcheddol gynaliadwy ac yn gallu dangos sut mae eich profiad yn drosglwyddadwy;
- Profiad proffesiynol o weithio i gyflawni cynaliadwyedd amgylcheddol;
- Perthnasoedd ag arweinwyr ym meysydd cludiant, ynni, cyfleustodau a/neu reoli gwastraff;
- Rhugl yn y Gymraeg.

Y CAIS

Dyddiad cau derbyn ceisiadau yw

I wneud cais, gallwch anfon eich CV atom drwy e-bost, ynghyd â llythyr cyflwyno o 750 gair neu lai sy'n esbonio pam eich bod eisiau gweithio gyda Ffilm Cymru a sut mae eich profiad yn cyd-fynd â'r rôl fel y mae wedi'i hysbysebu uchod.

Rhowch wybod i ni os oes gennych unrhyw ofynion mynediad a gallwn drefnu ffyrdd eraill i chi gyflwyno cais. Er enghraifft, gallwn ddarparu cyfeiriad er mwyn postio copi caled o gais, gallwn dderbyn llythyrau cyflwyno fideo, neu gallwn drefnu slot o awr i drawsgrifio eich llythyr cyflwyno dros y ffôn.

Dylai eich cais gael ei gyfeirio at Bennaeth Cynhyrchu, Kim Warner d/o: Sion Eirug a fydd hefyd yn mynd i'r afael ag unrhyw ymholiadau sydd gennych ynglyn ag ymgeisio. Gallwch gysylltu â hi ar sion@ffilmcymruwales.com

Mae Ffilm Cymru wedi ymrwymo i gefnogi sector ffilm cynhwysol ac yn cydnabod bod rhwystrau strwythurol sylweddol y mae'n rhaid i ni eu lliniaru. Gofynnwn i bob ymgeisydd lenwi ffurflen monitro amrywiaeth ac rydym yn gwarantu y byddwn yn cyfweld â phob ymgeisydd i'r rôl hon sy'n cyrraedd y meini prawf hanfodol uchod ac sy'n ystyried eu bod o hil ac ethnigrwydd sydd wedi'u tangynrychioli neu'n fyddar, niwroamrywiol, neu'n byw ag anabledd. Mae'r ffurflen monitro amrywiaeth ar wahân i'r ffurflen gais ac ni fydd ar gael i'r panel dethol neu gyfweld.

Mae dewis 'gwell gennyf beidio â dweud' i bob cwestiwn yn ein ffurflen monitro amrywiaeth, ac ni fydd unrhyw ymatebion a roddwch yn gysylltiedig â chi fel unigolyn mewn unrhyw adroddiad neu gyhoeddusrwydd. Rydym yn defnyddio'r wybodaeth hon i'n helpu i fesur ein perfformiad yn erbyn ein hamcanion Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant a'n helpu i ateb unrhyw ofynion mynediad sydd gennych ar gyfer cyfweliad neu pe caiff y swydd ei chynnig i chi.

I weld beth mae Ffilm Cymru yn ei wneud â'ch data ac i ddysgu mwy am sut rydym yn cefnogi diwydiant cynhwysol, cymrwch olwg ar ein Polisi Preifatrwydd a'n Cynllun Gweithredu ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant [fan yma](#).

ffilm

CYMRU WALES

WWW.FFILMCYMRUWALES.COM

TRAMSHED TECH
UNED 6
STRYD PENDYRIS
CAERDYDD
CF11 6BH



**ARIENNIR GAN
Y LOTERI
LOTTERY FUNDED**

